10/03/08

Annwyl Tom Williams,

Mae Swyddogion Cymdeithas yr Iaith yn fwy na parod i fynychu'r Pwyllgor Deisebau i wneud cyflwyniad neu i ateb cwestiynau. A oes modd i chi gadarnhau y bydd y mater yn cael ei drafod yng Nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Deisebau ar Ebrill 10fed os gwelwch yn dda.

**Dyma ddatganiad byr yn esbonio'r camau y mae Cymdeithas yr Iaith eisiau i Lywodraeth y Cynulliad eu cymryd:**

Galwn ar Lywodraeth Cymru i wireddu ar frys yr addewid clir i sefydlu papur dyddiol Cymraeg a gyhoeddwyd yn **Cymru'n Un**:

*"Byddwn yn cynyddu'r cyllid a'r gefnogaeth a roddir i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, gan gynnwys sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg."*

Galwn am gyhoeddiad newydd gan y llywodraeth bod swm digonol yn cael ei neilltuo'n benodol ar gyfer sefydlu papur cenedlaethol annibynnol yn Gymraeg, yn unol â'r ymchwil sydd wedi ei wneud gan sefydliadau profiadol yn y maes.

**Dyma'r ohebiaeth sydd wedi bod rhwng Swyddogion Cymdeithas yr Iaith a'r Gweinidog Treftadaeth, Rhodri Glyn Thomas:**

---

Subject: RE: Deiseb Cymdeithas yr Iaith - Papur Dyddiol yn y Gymraeg
Date: Mon, 3 Mar 2008 16:29:13 -0000
From: "Thomas, Rhodri (Assembly Member)" <Rhodri.Thomas@Wales.gov.uk>
To: hedd@cymdeithas.org

Annwyl Hywel

Nid ydym wedi torri unrhyw addewid. Ni welaf unrhyw bwynt I ymateb I'r pwyntiau a godir gan nad oes unrhyw fwriad gennyf I newid fy meddwl am benderfyniad a gymerwyd ar sail tystiolaeth gwrthrychol. Y bwriad yn awr yw symud ymlaen gyda chynlluniau cyffrous a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Yn gywir

RGT

-----Original Message-----
From: Hedd Gwynfor (Cymdeithas yr Iaith) [mailto:hedd@cymdeithas.org]

Sent: 02 March 2008 19:34
To: Thomas, Rhodri (Assembly Member)
Cc: Wyn Jones, Ieuan (Assembly Member); hywel@cymdeithas.org
Subject: Deiseb Cymdeithas yr Iaith - Papur Dyddiol yn y Gymraeg

Annwyl Rhodri Glyn Thomas,

Dyma gyflwyno ichi gopi o ddeiseb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg sy'n galw arnoch ar frys i weithredu'r addewid clir i sefydlu papur dyddiol Cymraeg a gyhoeddwyd yn Cymru'n Un (gweler atodiad). Casglwyd dros fil o enwau ar y ddeiseb mewn cyfnod o bythefnos yn unig. Bydd copi hefyd yn cael ei ddanfon at y Pwyllgor Deisebau.

Nodwn y pwyntiau yma hefyd mewn ymateb i'r "rhesymau" a roddwyd gennych dros dorri eich addewid yn eich ebost diwethaf atom. (Copi isod).

1) Cylchrediad
Ni chytunwn fod 700 o danysgrifwyr yn nifer siomedig. Yn ein barn ni mae 700 o bobl yn rhoi ymrwymiad i brynu papur nad yw'n bodoli heb fawr o ymgyrch marchnata yn arwydd gobeithiol iawn.

2) Hysbysebu
Gwyddoch fod y Western Mail a'r Daily Post yn elwa'n sylweddol iawn o bolisi hysbysebu'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill. Mae rhai miliynau o bunnoedd bob blwyddyn yn mynd i'w coffrau oherwydd hyn. Y gwir yw fod y Llywodraeth yn cefnogi'r wasg Saesneg yng Nghymru yn helaeth iawn - llawer mwy na £600,000 y flwyddyn - mewn sybsidi anuniongyrchol i Trinity Mirror, ac wedi bod yn gwneud ers blynyddoedd.

3. Gwasg fregus
Mae'n rhaid i'r Wasg Gymraeg ddatblygu mewn ffordd arwyddocaol a chyffrous. Does gan yr un cyhoeddiad hawl i fodoli am byth bythoedd dim ond am ei fod yn bodoli'n barod. Roedd cyfle i gael llais newyddiadurol annibynnol yn Gymraeg a fyddai'n cael impact ar drafodaeth gyhoeddus yng Nghymru, gyda staff newyddiadurol sylweddol heb ei debyg. Roedd cyfle i fynd â'r wasg Gymraeg i gyfnod newydd. Os mai amddiffyn y bregus oedd sail y penderfyniad, yna y neges ganddoch yw fod dim parch at fenter nac uchelgais.

4. Newyddion ar y We
A phob tegwch i Dyddiol Cyf, roedd eu cynllun yn cynnwys papur dyddiol ar y we ochr yn ochr â phapur print. Rhaid talu am newyddiaduraeth safonol ble bynnag mae hi'n cael ei chyhoeddi. Fodd bynnag dydy papurau ar y we ddim yn hyfyw eto. Maen nhw i gyd yn ddibynnol ar eu fersiynau print er mwyn cael ffrwd incwm.

I gloi, pwysleisiwn fod Cyfarfod Cyffredinol Cymdeithas Yr Iaith Gymraeg wedi pasio cynigion dros y blynyddoedd yn cefnogi'r uchelgais o gael papur dyddiol annibynnol yn Gymraeg er mwyn cryfhau democratiaeth yng Nghymru ac er mwyn cryfhau'r iaith Gymraeg. Yn hyn o beth, mae diffyg egwyddor y Llywodraeth yn y mater yma yn ein pryderi'n fawr.

Yn ystod ein Rali Genedlaethol dros Ddeddf Iaith Newydd a gynhaliwyd ar risiau'r Senedd dydd Sadwrn diwethaf fe wnaeth y siaradwyr a'r dorf gyhoeddi galwad eglur; bod dyletswydd a rheidrwydd amlwg ar y Llywodraeth yn awr i brofi ei bod o ddifrif am ddyfodol y Gymraeg.

Mae'r penderfyniad i beidio cefnogi sefydlu papur dyddiol Cymraeg wedi ei gyplysu gyda'r cyhoeddiad am swm arian cwbl annigonol at Goleg Ffederal Cymraeg yn cynyddu'r pwysau arnoch i sicrhau ddeddf iaith gref. Ni fodlonwn ar ddim llai na deddf iaith fydd yn sefydlu statws swyddogol i'r Gymraeg, hawliau i bobl Cymru ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd a Chomisiynydd i'r iaith Gymraeg.

Yn gywir,

Hywel Griffiths,
Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

---

Subject: RE: Llythyr agored at Rhodri Glyn Thomas - Papur Dyddiol Cymraeg
Date: Tue 19 Feb, 2008
From: "Thomas, Rhodri (Assembly Member)" <Rhodri.Thomas@Wales.gov.uk>
To: hedd@cymdeithas.org

---

Annwyl Hedd / Hywel

Diolch am yr e-bost. Dw i'n deall ac yn rhannu'r siom. Mae'n bwysig nodi mai ymrwymiad i gefnogi sydd yn y ddogfen Cymru'n Un. Alla i ddim mynd i fanylion ynglyn a'r penderfyniad ond fe alla i rannu hyn a thi. Er nad yw y penderfyniad wedi ei seilio ar gynllun Y Byd bum yn trafod y fenter gyda nifer o bobl sydd a phrofiad o gynhyrchu papur dyddiol a phobl sydd a phrofiad o'r wasg Gymraeg. Roedd na nifer o ffactorau oedd yn peri pryder.

1. Cylchrediad y papur. Digon rhwydd son am yr angen i weithredu mewn ffydd ond y gwir yw bod yr ymchwil a phrofiad yn dangos nad oes na gynulleidfa o ddarllenwyr sydd yn agos at fod yn ddigonol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn nifer siomedig y tanysgrifwyr.

2. Hysbysebu. Bum yn trafod hyn hefyd a'r gwir yw bod y sefydliadau perthnasol i gyd yn son am symud i hysbysebu ar y We.Ni fyddai modd rhoi unrhyw warant o hysbysebu heb son am y ddadl am hysbysebu yn ddwyieithiog.

3. Effaith y fenter, petai'n methu, ar weddill y wasg brintiedig cyfrwng Cymraeg sy'n hynod o fregus ar hyn o bryd.

Penderfynwyd ar sail hyn buddsoddi yn y wasg i gynyddu nifer y darllenwyr ac yn enwedig ymhlith y gynulleidfa iau. Rydym hefyd yn edrych am gynlluniau blaengar ar gyfer newyddion ar y We. Ond dw i'n berffaith barod i ystyried unrhyw gynlluniau sy'n cryfhau ac ehangu'r wasg Gymraeg.

Byddai'n dda calon ge i petai modd mentro ymhellach ond yn anffodus o edrych ar y sefyllfa yn gwbl wrthrychol gallai'r mentro hynny fod yn gwbl ddinistriol a'n gadael heb wasg yn y Gymraeg o gwbl.

Nid dadl ynglyn a faint o arian sydd ar gael yw hyn ond sut i symud y wasg yn ei chyfanrwydd yn ei blaen ac mae na gynlluniau heblaw Dyddiol Cyf a'r rheini mae gen i ofn yn llawer iawn mwy cynaliadwy.

Cofion

RGT

-----Original Message-----
From: Hedd Gwynfor (Cymdeithas yr Iaith)
[mailto:hedd@cymdeithas.org]
Sent: 15 February 2008 14:21
To: rhodri.thomas@cymru.gov.uk
Subject: Llythyr agored at Rhodri Glyn Thomas - Papur Dyddiol Cymraeg

Dyma gopi o lythyr agored a fydd yn ymddangos yn y Wasg yn ystod yr wythnos nesaf.

Rydym hefyd wedi cychwyn deiseb arlein: http://deiseb.cymdeithas.org/

Hedd Gwynfor
Cymdeithas yr Iaith

Annwyl Rhodri Glyn Thomas (Gweinidog Treftadaeth),

Rwy'n ysgrifennu ar ran Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i ddatgan siom ein haelodau bod Llywodraeth y Cynulliad wedi torri ei haddewid i sefydlu papur dyddiol Cymraeg. Nid wyf yn cwestiynu eich ymrwymiad personol i'r cysyniad, ond mae'n rhaid i mi gwestiynu rhai pethau sydd yn ymddangos fel gwrthddweud llwyr ym mholisïau'r llywodraeth. Mae'r addewid hwn i sefydlu papur dyddiol Cymraeg yn gwbl glir yng Nghytundeb Cymru'n Un: "Byddwn yn cynyddu'r cyllid a'r gefnogaeth a roddir i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, gan gynnwys sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg."

Deiseb Arlein - http://deiseb.cymdeithas.org

Rhaid inni bwysleisio'r ffaith nad yw'r cyllid a gyhoeddwyd gennych yn ddigon i wireddu sefydlu papur dyddiol yn Gymraeg. Yn ôl ymchwil trylwyr a phroffesiynol Dyddiol Cyf, ni fydd yn bosib sefydlu papur o'r fath heb gymhorthdal o £600,000 o leiaf y flwyddyn, ac roedd y ffigyrau yma yn hysbys i bob plaid wleidyddol cyn iddynt lunio eu maniffesto ar gyfer etholiad mis Mai 2007, a chyn i Blaid Cymru a'r Blaid Lafur ymrwymo i gytundeb Cymru'n Un. Mae'r cwmni wedi cyhoeddi ers eich datganiad na fydd modd iddo barhau gyda'r fenter o sefydlu papur dyddiol credadwy, ac ei fod yn annhebyg iawn y bydd unrhyw un arall yn gallu gwneud 'chwaith.

Mae adroddiad Tony Bianchi yn cadarnhau hyn, gan ddweud na fydd yn bosib i unrhyw gwmni sefydlu papur newydd dyddiol heb y fath swm o arian. Nid yw £200,000, i'w rannu rhwng bob elfen o'r wasg brintiedig yn ddigon felly, ac mae profiad papurau dyddiol mewn ieithoedd lleiafrifol eraill yn profi hyn. Er enghraifft mae'r papur Basgeg Berria, sy'n derbyn cymhorthdal o dros £1.2 miliwn y flwyddyn gan Lywodraeth Gwlad y Basg yn ffynnu, tra bod y papur Gaeleg Lá Nua yng Ngogledd Iwerddon, sy'n derbyn grant o £200,000 y flwyddyn yn unig gan y llywodraeth, newydd gyhoeddi y bydd yn cau erbyn diwedd y mis oherwydd trafferthion ariannol.

Credwn fod y llywodraeth wedi torri ei addewid i sefydlu papur dyddiol ac mae'r tro pedol yma wedi siomi aelodau Cymdeithas yr Iaith yn fawr. Ymhellach, credwn bod ffydd pobl Cymru yn y glymblaid ac yn ei gallu i gadw at ei haddewidion dros y Gymraeg wedi cael ei siglo. Mae'r amseru a'r amgylchiadau ar gyfer sefydlu papur dyddiol Cymraeg cystal ag y maent yn debygol o fod ar hyn o bryd, gan bod Dyddiol Cyf wedi gwneud cystal gwaith ymchwil a marchnata, a gan bod gennym lwyr ddealltwriaeth o'r wasg brintiedig o ganlyniad i adroddiad Tony Bianchi.

Galwn arnoch fel Gweinidog i sicrhau bod y llywodraeth yn gwireddu ar frys yr addewid clir i sefydlu papur dyddiol Cymraeg a gyhoeddwyd yn Cymru'n Un, a galwn am gyhoeddiad newydd

gan y Llywodraeth bod swm digonol yn cael ei neilltuo'n benodol ar gyfer sefydlu papur cenedlaethol annibynnol yn Gymraeg. Ni fydd dim llai yn ddigon da!

Rydym wedi cychwyn deiseb arlein i'r perwyl hwn - http://deiseb.cymdeithas.org

Yn Gywir,

Dafydd M Lewis

pp Hywel Griffiths
Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg